MOMA
MACHYNLLETH

**The best in Classical, Jazz & Welsh Music, Exhibitions & Talks**

*Awst 21-28 August 2022*

# Gŵyl Machynlleth Festival



*machynllethfestival.co.uk*

Gŵyl Machynlleth Festival

# Croeso Welcome

Artistic Directors / Cyfarwyddwyr Artistig: **Julius Drake & Dennis Jones**

**Hidden in the foothills of Snowdonia, the vibrant market town of Machynlleth opens its doors every August to play host to a week long Festival of Welsh and International music, culture, and heritage.**

***Ynghudd ym mryniau godre Eryri, bob mis Awst bydd tref farchnad fyrlymus Machynlleth yn agor ei drysau i gynnal Gŵyl wythnos ar ei hyd o gerddoriaeth, diwylliant a threftadaeth Gymreig a rhyngwladol.***

Following a brief hiatus, our Gŵyl Machynlleth Festival returns this summer with an exceptional programme.

Join us in our celebration at the Tabernacle, a renovated Wesleyan chapel nestled in the heart of Machynlleth, loved by our audiences for its uniquely intimate and captivating acoustics.

We look forward to welcoming you in August for a week of festivities with renowned musicians and performers from all around the world.

*Yn dilyn hoe fach, mae Gŵyl Machynlleth yn dychwelyd yn ystod yr haf eleni gyda rhaglen arbennig tu hwnt.*

*Ymunwch â ni yn ein dathliad yn y Tabernacl, hen gapel Wesleaidd wedi'i ailwampio sy'n nythu yng nghanol Machynlleth, yn ffefryn mawr gyda'n cynulleidfaoedd oherwydd ei acwsteg agosatoch a chyfareddol unigryw.*

*Edrychwn ymlaen at eich croesawu ym mis Awst am wythnos lawn hwyl gyda cherddorion enwog a pherfformwyr o bob cwr o'r byd.*



Design/dylunio: Formation Creative. Illustrations/gwaith celf: Glasbrint



# Rhaglen Programme

| TIME | EVENT | PRICE | PAGE |
|---|---|---|---|
| **Sunday 21 August - Dydd Sul 21 Awst** | | | |
| 7.30pm | Cymanfa Ganu | FREE | 4 |
| **Monday 22 August - Dydd Llun 22 Awst** | | | |
| 1.00pm | Charlotte Kwok & Sisters | £10 | 4 |
| 7.30pm | Robyn Lyn – Tenor, Gwawr Edwards – Soprano, Trystan Lewis – Bass, Menna Griffiths | £20 | 5 |
| 10.00pm | Siân James – Harp | £15 | 6 |
| **Tuesday 23 August - Dydd Mawrth 23 Awst** | | | |
| 1.00pm | Children's Concert | FREE | 6 |
| 7.30pm | Cantorion Gogledd Cymru, Steffan Lloyd Owen – Bass & Aneira Evans – Soprano | £20 | 7 |
| **Wednesday 24 August - Dydd Mercher 24 Awst** | | | |
| 11.00am | Market Day Open Air Concert | FREE | 8 |
| 1.00pm | Hallstatt Lecture – Dr James January-McCann | £15 | 8 |
| 4.00pm | Benefactor's Concert: Wihan Quartet | – | 20 |
| 7.30pm | African Night: Abel Selaocoe & Chesaba | £25 | 9 |
| **Thursday 25 August - Dydd Iau 25 Awst** | | | |
| 1.00pm | Wihan Quartet | £15 | 10 |
| 7.30pm | Natalya Romaniw – Soprano & Julius Drake – Piano | £25 | 10 |
| **Friday 26 August - Dydd Gwener 26 Awst** | | | |
| 10.30am | Masterclass Sessions with Dennis O'Neill | £10 | 11 |
| 1.00pm | Glyndŵr Award – Robat Arwyn | £10 | 11 |
| 5.00pm | Masterclass Concert with Dennis O'Neill | £7 | 11 |
| 7.30pm | Viktoria Mullova – Violin & Alasdair Beatson – Piano | £25 | 12 |
| 10.00pm | Elysium Brass | £15 | 13 |
| **Saturday 27 August - Dydd Sadwrn 27 Awst** | | | |
| 1.00pm | Mark Padmore – Tenor, Benjamin Marquise Gilmore – Violin, Niall Cusack – Narrator | £15 | 13 |
| 3.00pm | Flamenco Workshop with Lourdes Fernandez | FREE | 18 |
| 7.30pm | Elisabeth Leonskaja – Piano | £25 | 14 |
| 10.00pm | Lourdes Fernandez Flamenco Company | £15 | 15 |
| **Sunday 28 August - Dydd Sul 28 Awst** | | | |
| 1.00pm | Nikola Meeuwsen – Piano | £15 | 15 |
| 7.30pm | Mark Padmore – Tenor, Navarra Quartet, Leon Bosch – Double Bass, Julius Drake – Piano | £25 | 16 |



Sunday 21 Aug
Nos Sul 21 Awst

7.30pm FREE
Y Tabernacl

# Cymanfa Ganu

## with / gyda
## Cor Bro Meirion

A unique feature of Welsh heritage, the Cymanfa Ganu is a festival of sacred hymns sung by the audience in four-part harmony under the direction of a choral conductor. We welcome you to continue this tradition by joining us for the opening of the 2022 Festival.

*Yn nodwedd unigryw o'r diwylliant Cymraeg, dyma wledd o emynau'n cael eu canu mewn pedwar llais gan y gynulleidfa o dan faton arweinydd corawl. Mae croeso i chi barhau â'r traddodiad hwn drwy ymuno â ni ar gyfer agoriad Gŵyl 2022.*



# Kwok Sisters

Monday 22 Aug
Dydd Llun 22 Awst

1.00pm £10
Y Tabernacl

## Charlotte Kwok
## with Yola and Melody Kwok

Charlotte Kwok, four-time winner of the Urdd Piano Solo competition, joins us in Machynlleth with her two sisters Melody and Yola for an exhilarating program including their renowned piano triet.

*Mae Charlotte, sydd wedi ennill cystadleuaeth Unawd Piano yr Urdd bedair gwaith, yn ymuno â ni ym Machynlleth gyda'i dwy chwaer Melody a Yola am raglen fywiog gan gynnwys eu triawd piano enwog.*





# Soloists Unawdwyr

Monday 22 Aug
Nos Lun 22 Awst

7.30pm £20
Y Tabernacl

**Robyn Lyn** Tenor
**Gwawr Edwards** Soprano
**Trystan Lewis** Bass

Three exceptional Welsh soloists come together to give us a night to remember. These award-winning performers represent the best in local Welsh singing, and will join us for a diverse evening of music spanning genres. Joined by celebrated accompanist Menna Griffiths and compered by Dilwyn Morgan, our three soloists' programme promises laughter, emotion, and sensational singing.

*Mae tri unawdydd eithriadol o Gymru yn dod ynghyd i roi noson i'w chofio i ni. Mae'r perfformwyr arobryn hyn yn cynrychioli'r gorau o ran canu Cymraeg yn yr ardal a byddant yn ymuno â ni am noson amrywiol o gerddoriaeth. Gyda'r gyfeilyddes enwog Menna Griffiths yn ymuno â nhw a Dilwyn Morgan yn eu cyflwyno, mae rhaglen ein tri unawdydd yn addo noson o chwerthin, emosiwn a chanu penigamp.*

Monday 22 Aug
Nos Lun 22 Awst

10.00pm £15
Y Tabernacl



# Harp Telyn

## Siân James

Join us for an atmospheric late-night candle-lit performance from prolific Welsh harpist Siân James. whose 'achingly pure' voice pairs beautifully with her repertoire of traditional Welsh folk music.

*Ymunwch â ni am berfformiad agosatoch yng ngolau cannwyll gan y delynores doreithiog o Gymru, Siân James. Mae llais 'didostur o bur' Siân yn asio'n berffaith â'i repertoire o gerddoriaeth werin draddodiadol Gymreig.*



Tuesday 23 Aug
Dydd Mawrth 23 Awst

1.00pm FREE
Y Tabernacl



# Children's Concert Cyngerdd i Blant

Our annual free Lunchtime Children's Concert. This is a fun and relaxed family event, suitable for children and parents of all ages. Performers will be revealed online so make sure to check our website and social media!

*Ein Cyngerdd blynyddol i blant, am ddim i bawb. Mae hwn yn ddigwyddiad hwyliog a hamddenol i'r teulu, sy'n addas ar gyfer plant a rhieni o bob oed. Bydd y perfformwyr yn cael eu datgelu ar-lein felly gwnewch yn siŵr eich bod yn edrych ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol!*

# Cantorion Gogledd Cymru

Tuesday 23 Aug
Nos Fawrth 23 Awst

7.30pm £20
Y Tabernacl

**Steffan Lloyd Owen** Baritone
**Aneira Evans** Soprano
**Aled Edwards** Conductor

We are fortunate to welcome back internationally renowned Welsh male voice choir Cantorion Gogledd Cymru, joined by Welsh baritone Steffan Lloyd Owen, and local soprano Aneira Evans. Under the baton of Aled Edwards, Cantorion Gogledd Cymru promise a programme delivered with that essential passion, dynamics and hair-raising finale expected of Welsh male voice choirs. We advise you to buy your tickets early for this event to avoid disappointment.

*Rydyn ni'n ffodus o gael croesawu'n ôl y côr meibion rhyngwladol ei fri, Cantorion Gogledd Cymru. Yn ymuno â'r côr bydd y bariton o Gymru, Steffan Lloyd Owen, ac Aneira Evans i gyflwyno noson gyforiog o gerddoriaeth. O dan faton Aled Edwards, mae Cantorion Gogledd Cymru'n addo rhaglen a berfformir gyda'r angerdd, deinameg ac uchafbwynt cyffrous anhepgor a ddisgwylir gan gorau meibion Cymreig. Fe'ch cynghorir i brynu'ch tocynnau'n gynnar ar gyfer y digwyddiad hwn rhag cael eich siomi.*



Wednesday 24 Aug
Dydd Mercher 24 Awst

11.00am FREE
Heol Maengwyn

# Open-air Concert

Join us in the town centre on Market Day to enjoy a free concert by local musicians for the community.

*Ymunwch â ni yng nghanol y dref ar Ddiwrnod y Farchnad i fwynhau cyngerdd cymunedol rhad ac am ddim gan gerddorion lleol.*

Wednesday 24 Aug
Dydd Mercher 24 Awst

1.00pm £15
Y Tabernacl

# Hallstatt Lecture




## Dr James January-McCann
## Dyfi Valley Place Names / Enwau Lleoedd Dyffryn Dyfi

Dr James January-McCann will present the 2022 Hallstatt Lecture on the place names of the Dyfi Valley. Dr January-McCann is a Welsh & Celtic Studies Scholar, and the Place Names Officer for the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales. Informed by The List of Historic Place Names of Wales project, this lecture will provide a fascinating insight into the etymology, archaeology and history of Wales.

*Bydd Dr James January-McCann yn cyflwyno Darlith Hallstatt 2022 ar enwau lleoedd Dyffryn Dyfi. Sgolor yn y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yw Dr January-McCann a Swyddog Enwau Lleoedd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Mae'r prosiect yma'n cynnig cipolwg rhyfeddol ar ddefnydd tir, archaeoleg a hanes Cymru.*

COOK'S TOURS
see p17
free
6.15pm
TEITHIAU COOK

# Noson Affricanaidd!



# African Night!

Wednesday 24 Aug
Nos Fercher 24 Awst

7.30pm £25
Y Tabernacl

## Abel Selaocoe & Chesaba

"A shining example of a musician pushing the limits"

"Enghraifft ddisglair o gerddor yn gwthio'r ffiniau"

The brilliant South African cellist Abel Selaocoe moves seamlessly across genres and styles. Together with his trio Chesaba he presents his own distinctive way with music from the African continent. Abel combines virtuosic performance with improvisation, singing and body percussion, his energised performances bringing together classical, jazz, and world music in a unique fusion.

*Mae'r soddgrythor disglair o Dde Affrica, Abel Selaocoe, yn symud yn ddiwnïad ar draws genres ac arddulliau. Ynghyd â'i driawd Chesaba mae'n cyflwyno yn ei ffordd arbennig ei hun gerddoriaeth o gyfandir Affrica. Mae Abel yn cyfuno perfformio meistrolgar â byrfyfyrio, canu a defnyddio'r corff fel offeryn taro ac mae ei berfformiadau egnïol yn asio'r clasurol, jazz a cherddoriaeth fyd mewn ffordd unigryw.*

Thursday 25 Aug
Dydd Iau 25 Awst

1.00pm £15
Y Tabernacl

# Quartet



## Wihan Quartet

**Janáček** Quartet No. 2 'Intimate Letters'
**Dvořák** Quartet No. 12 in F major 'American' Op. 96

Two classics of the Bohemian repertoire, played by one of today's leading Czech string quartets. The Wihan Quartet, especially admired for their interpretations of the Czech repertoire, return once again to Machynlleth to share their music.

*Dau glasur o'r repertoire Bohemaidd, yn cael eu chwarae gan un o brif bedwarawdau llinynnol y Weriniaeth Tsiec heddiw. Yn cael eu hedmygu'n arbennig am eu dehongliadau o'r repertoire Tsiecaidd, maent yn dychwelyd i Fachynlleth i rannu eu cerddoriaeth unwaith eto.*



Cook's Tours / Teithiau Cook
see p17
free
6.30pm

Friday 26 Aug
Dydd Gwener 26 Awst

Session 1 10.30am £10
Session 2 2.00pm
Concert 5.00pm £7
Y Tabernacl

# Opera Masterclass

## Dennis O'Neill

Dennis O'Neill takes a group of hand-picked students through favourite operatic pieces. Following the day's masterclass join us to hear these students share their final performances as the great Welsh tenor introduces a concert by these four young stars of the future.

*Mae'r tenor mawr o Gymru yn mynd â chriw o fyfyrwyr dethol drwy ddarnau operatig hoff. Yn dilyn dosbarth meistr y dydd ymunwch â ni i glywed y myfyrwyr hyn yn rhannu eu perfformiadau olaf wrth i denor mawr Cymru gyflwyno cyngerdd gan y pedwar seren ifanc y dyfodol.*

Thursday 25 Aug
Nos Iau 25 Awst

7.30pm £25
Y Tabernacl

**Strauss** Mädchenblumen Op. 22
**Berg** Seven early songs (1905)
**Strauss** Four Last Songs





# Song

Cook's Tours / Teithiau Cook
see p17
free
6.15pm

**Natalya Romaniw** Soprano
**Julius Drake** Piano

The Swansea born soprano, Natalya Romaniw, is a new star in the world of singing and opera. Tonight she makes her Machynlleth Festival debut alongside Artistic Director Julius Drake. A rising star, Romaniw is a force in contemporary opera not to be missed.

*Yn enedigol o Abertawe, seren newydd ym myd canu a'r opera yw'r soprano, Natalya Romaniw. Heno, mae'n perfformio am y tro cyntaf yng Ngŵyl Machynlleth ochr yn ochr â'r Cyfarwyddwr Artistig, Julius Drake, gyda rhaglen sy'n mynd ar draws Ewrop. Cantores rymus ym myd yr opera gyfoes yw Romaniw – peidiwch â'i cholli!*





Friday 26 Aug
Dydd Gwener 26 Awst

1.00pm £10
Y Tabernacl

# Glyndŵr Award

## Robat Arwyn

Rhys Meirion introducing and performing the music of Robat Arwyn. The Welsh composer Robat Arwyn is this year's recipient of the Glyndŵr Award for an Outstanding Contribution to the Arts in Wales. Robat Arwyn is one of the most prolific and popular composers in Wales today. Conductor of the famed Côr Rhuthun, Arwyn's contribution to the choral legacy of Welsh music is significant.

*Rhys Meirion yn cyflwyno ac yn perfformio cerddoriaeth Robat Arwyn. Y cyfansoddwr Robat Arwyn sy'n derbyn Gwobr Glyndŵr eleni am Gyfraniad Arbennig i'r Celfyddydau yng Nghymru. Robat Arwyn yw un o gyfansoddwyr mwyaf toreithiog a phoblogaidd Cymru heddiw. Yn arweinydd yr enwog Gôr Rhuthun, mae cyfraniad Robat Arwyn i gynhysgaeth gorawl cerddoriaeth Cymru yn sylweddol.*

Friday 26 Aug
Nos Wener 26 Awst
7.30pm £25
Y Tabernacl

# Mullova & Beatson





**Beethoven** Sonata No. 4 in A minor Op. 23
**Beethoven** Sonata No. 7 in C minor Op. 30
**Takemitsu** Distance de fée
**Pärt** Fratres
**Schubert** Rondo in B minor Op. 70

**Viktoria Mullova** Violin
**Alasdair Beatson** Piano

"Mullova may be the most elegant, refined and sweetly expressive violinist on the planet."

"Gall fod mai Mullova yw'r feiolinydd mwyaf gosgeiddig, mirain a pheraf ei mynegiant ar y blaned."

Viktoria Mullova is one of today's most celebrated violinists, known the world over as a performer of exceptional versatility and musical integrity. It brings us great pleasure to host her alongside the outstanding Scottish pianist Alasdair Beatson in the Tabernacle for this rich programme of Beethoven and Schubert masterpieces, and 20th century classics by Pärt and Takemitsu.

*Mae'r feiolinydd Viktoria Mullova yn adnabyddus ar draws y byd fel perfformwraig hynod amryddawn ac am ei huniondeb cerddorol. Pleser mawr i ni yw ei chroesawu ochr yn ochr â'r pianydd neilltuol o'r Alban, Alasdair Beatson, yn y Tabernacl ar gyfer y rhaglen gyfoethog yma o orchestweithiau Beethoven a Schubert a chlasuron o'r 20fed ganrif gan Pärt a Takemitsu.*







Friday 26 Aug
Nos Wener 26 Awst
10.00pm £15
Y Tabernacl

**Elysium Brass**

# Brass Pres

A late night concert by candlelight with one of the UK's leading brass ensembles, the award-winning Elysium brass. Join us for an atmospheric evening of music from Gabrielli to Piazolla, Ravel to A Nightingale sang in Berkeley Square.

*Cyngerdd hwyrnos yng ngolau cannwyll gydag un o brif ensembles pres y DU, yr arobryn Elysium Brass. Ymunwch â ni am noson swynol o gerddoriaeth o Gabrielli i Piazolla, Ravel i A Nightingale sang in Berkeley Square.*

Saturday 27 Aug
Dydd Sadwrn 27 Awst
1.00pm £15
Y Tabernacl



**Mark Padmore** Tenor
**Benjamin Marquise Gilmore** Violin
**Niall Cusack** Narrator

# Trio

COOK'S TOURS see p17 free 6.15pm TEITHIAU COOK

**Vaughan Williams** Along the Field
**Holst** 4 Songs Op. 35
**Alan Ridout** Ferdinand the Bull

One of Britain's most acclaimed singers, tenor Mark Padmore, joins violinist Benjamin Marquise Gilmore and our resident actor Niall Cusack, for a delightful programme of works for voice, violin and narrator.

*Yn un o gantorion uchaf eu bri yn y DU, mae'r tenor Mark Padmore yn ymuno â'r feiolinydd Benjamin Marquise Gilmore a'n hactor preswyl, Niall Cusack, am raglen hyfryd o weithiau i'r llais, feiolín a llefarydd.*



Saturday 27 Aug
Nos Sadwrn 27 Awst

7.30pm £25
Y Tabernacl

# Piano

## Elisabeth Leonskaja

**Beethoven**
Sonata No. 30 in E major Op. 109
Sonata No. 31 in A flat major Op. 110
Sonata No. 32 in C minor Op. 111

“Fervent in feeling, masterly in discipline, a serious line in beauty”

“Yn angerddol o ran teimlad, yn feistrolgar o ran disgyblaeth, harddwch pur.”

Having received the International Classical Music (ICMA) Lifetime Achievement Award in 2020, Elisabeth Leonskaja can safely be considered amongst the most celebrated pianists of our time. Her programme, the last three of Beethoven’s thirty-two piano sonatas, is a sublime legacy from the last years of his life. This promises to be an unmissable performance.

*A hithau wedi derbyn Gwobr Cyflawniad Oes Cerddoriaeth Glasurol Ryngwladol (ICMA) 2020, teg honni bod Leonskaja ymhlith pianyddion mwyaf nodedig ein hoes. Cynhysgaeth aruchel blynyddoedd olaf bywyd Beethoven yw ei rhaglen, sef y tri olaf o’i ddeuddeg ar hugain sonata. Fiw i chi golli’r perfformiad yma.*







Saturday 27 Aug
Nos Sadwrn 27 Awst

10.00pm £15
Y Tabernacl

## Lourdes Fernandez Flamenco Company presents Raíces

# Fflamenco

“Flamenco goes straight to the soul”

“Mae fflamenco’n mynd yn syth i’r enaid!”

A late night concert of Spanish Flamenco in dance and song from the fabulous Lourdes Fernandez and her company. Join us for an evening of rhythm and passion in their new show Raíces, a diverse interpretation of the art of flamenco.

*Cyngerdd hwyrnos o fflamenco Sbaenaidd ar ffurf dawns a chân gan y fendigedig Lourdes Fernandez a’i chwmni. Ymunwch â ni ar gyfer noson o rythm ac angerdd yn eu sioe newydd Raíces, dehongliad amrywiol o gelfyddyd fflamenco.*

Sunday 28 Aug
Dydd Sul 28 Awst

1.00pm £15
Y Tabernacl

## Nikola Meeuwsen

**Liszt/Schubert**
Schwanengesang
**Schubert** Fantasy
in C major Op. 15
‘The Wanderer’



# Piano

Machynlleth Festival prides itself on presenting outstanding young talent and this year the prodigious 20 year old Dutch pianist Nikola Meeuwsen, takes up the banner.

*Mae Gŵyl Machynlleth yn ymfalchïo mewn cyflwyno talent ifanc neilltuol ac eleni, mae’r pianydd aruthrol 20 oed o’r Iseldiroedd, Nikola Meeuwsen, yn codi’r faner.*

Sunday 28 Aug
Nos Sul 28 Awst
7.30pm £25
Y Tabernacl









# Finale!

COOK'S TOURS see p17 free 6.15pm TEITHIAU COOK

**Mark Padmore** Tenor
**Navarra Quartet**
**Leon Bosch** Strings
**Julius Drake** Piano

**Beethoven** Welsh Folksongs WoO 155
**Pärt** My Heart's in the Highlands
**Fauré** La Bonne Chanson Op. 61
**Henriëtte** String Quartet (1927)
**Dvořák** String Quintet No. 2 in G major Op. 77

"A festive concert for the Festival Finale!"

Welsh folk songs arranged for voice and piano trio by Beethoven, great quintets by Fauré and Dvořák, a rarely heard string quartet by Henriëtte Bosmans and Robert Burns' 'My Heart's in the Highlands', set by the great Estonian composer, Arvo Pärt are all to be enjoyed in this finale. Artistic Director Julius Drake is joined by internationally acclaimed musicians Mark Padmore, Leon Bosch and the Navarra Quartet to bring this joyful programme to life.

"Cyngerdd hwyliog i gloi'r Ŵyl!"

*I gyd yn yr arlwy ar gyfer y diweddglo hwn mae caneuon gwerin o Gymru a drefnwyd i'r llais a thriawd piano gan Beethoven, pumawdau gwych gan Fauré a Dvořák, pedwarawd llinynnol nas clywir yn aml gan Henriëtte Bosmans a 'My Heart's in the Highlands' gan Robert Burns mewn gosodiad gan y cyfansoddwr mawr o Estonia, Arvo Pärt. Yn ymuno â'r Cyfarwyddwr Artistig Julius Drake bydd y cerddorion rhyngwladol eu bri, Mark Padmore, Leon Bosch a Phedwarawd Navarra, i ddod â'r rhaglen lawen yma'n fyw.*

# Cook's Tours



Join us as Christopher Cook guides us through the evening's music in a series of pre-concert interviews and talks.

*Ymunwch â ni wrth i Christopher Cook ein tywys drwy gerddoriaeth y noson mewn cyfres o gyfweliadau a sgyrsiau cyn y cyngerdd.*

Wednesday 24th August 6.15pm

"Selaocoe's way of reinventing the cello went straight to the heart"

### Abel Selaocoe In Conversation

Abel Selaocoe talks to Christopher Cook about his music making.

### *Abel Selaocoe mewn sgwrs*

*Bydd Abel Selaocoe yn siarad â Christopher Cook am ei ffordd yntau o gerddora.*

Thursday 25th August 6.15pm

### 'Like Oil and Melted Butter' – The Songs of Richard Strauss

Were Strauss' songs a 'laboratory for the operas', were they simply money-spinners or were they an opportunity to indulge a personal passion for the Soprano voice?

### *'Fel Olew a Menyn Tawdd' – Caneuon Richard Strauss*

*A oedd y caneuon yn labordy ar gyfer yr operâu, ai dim ond i ennill tomen o bres roedden nhw neu'n gyfle i fodloni rhyw angerdd personol dros y llais soprano?*

Friday 26th August 6.30pm

### Dennis O'Neill In Conversation

Dennis O'Neill talks to Christopher Cook about his career as a Verdian and his current role teaching a new generation of singers.

### *Dennis O'Neill Mewn Sgwrs*

*Bydd Dennis O'Neill yn siarad â Christopher Cook am ei yrfa fel canwr Verdi a'i rôl bresennol fel athro i genhedlaeth newydd o gantorion.*

Saturday 27th August 6.15pm

### Mark Padmore in Conversation

Mark Padmore talks to Christopher Cook about his career and the composers and musicians that he has worked with.

### *Mark Padmore Mewn Sgwrs*

*Bydd Mark Padmore yn siarad â Christopher Cook am ei yrfa a'r cyfansoddwyr a'r cerddorion y mae wedi cydweithio â nhw.*

Sunday 28th August 6.15pm

### Leon Bosch in Conversation

Leon Bosch talks to Christopher Cook about growing up a young musician in South Africa under Apartheid, playing with the Academy of St Martin's in the Fields and now teaching a new generation of double bass players.

### *Leon Bosch Mewn Sgwrs*

*Bydd Leon Bosch yn siarad â Christopher Cook am dyfu i fyny fel cerddor ifanc yn Ne Affrica o dan Apartheid, chwarae gydag Academi St Martin's in the Fields ac erbyn hyn, ddysgu cenhedlaeth newydd o chwaraewyr bas dwbl.*

# Town Events



## Flamenco Workshop

**Saturday 27 Aug**
**Dydd Sadwrn 27 Awst**

3.00pm FREE
Canolfan Owain Glyndŵr Centre

Join us at the Owain Glyndŵr Centre for an afternoon Flamenco dance workshop from the fabulous Lourdes Fernandez and her band. All ages and abilities are welcome. This is a non-ticketed event.

*Ymunwch â ni yng Nghanolfan Owain Glyndŵr am weithdy dawns Fflamenco yn y prynhawn yng nghwmni'r hyfryd Lourdes Fernandez a'i band. Croeso i bob oedran a gallu. Digwyddiad didocyn yw hwn.*

## Roaming Bard



Throughout the festival week Machynlleth will play host to actor Niall Cusack, our resident bard, who will be performing poetry and short stories by Welsh writers in various venues up and down the high street. Watch out around the town for Niall's masterful storytelling.

*Drwy gydol wythnos yr Ŵyl, bydd Machynlleth yn rhoi llwyfan i'r actor Niall Cussack, ein bardd preswyl a fydd yn perfformio barddoniaeth a straeon byrion gan awduron Cymreig mewn gwahanol ganolfannau ar hyd Stryd Maengwyn. Cadwch lygaid am ddoniau meistrolgar Niall fel cyfarwydd.*

## Y Clerwr

# Getting here...
# Cyrraedd yma...

MOMA and The Tabernacle are in the centre of Machynlleth, a short distance from the train and bus stations, and from the town's historic clock.

**By Train**: We are less than five minutes' walk from Machynlleth train station. Machynlleth is on the Cambrian main line route across Mid-Wales with services to Shrewsbury (linking to Birmingham and London Euston), to Aberystwyth, and to Pwllheli.

**By Bus**: Machynlleth is served by a network of regular local bus services operating between Bangor, Aberystwyth, Tywyn and Newtown.

**By Car**: We are located on the A487, Heol Penrallt, running through the centre of Machynlleth. Parking available at Heol Maengwyn car park.

**Tabernacle Bar**
The Tabernacle Bar will be open in the evenings for pre-concert and interval drinks. For our convenience and to avoid long queues, interval drinks can be ordered before the performance starts.

*Saif MOMA a'r Tabernacl ar ganol Machynlleth, nid nepell o'r gorsafoedd trenau a bysiau ac yn ddigon agos i gloc hanesyddol y dre.*

***Ar y trên:*** *Saif MOMA a'r Tabernacl lai na phum munud o waith cerdded o orsaf drenau Machynlleth. Fe orwedd Machynlleth ar brif lein Rheilffordd y Cambrian ar draws canolbarth Cymru, gyda gwasanaethau i Amwythig (gan gysylltu â Birmingham ac Euston, Llundain), Aberystwyth a Phwllheli.*

***Ar y Bws:*** *Mae Machynlleth yn cael ei wasanaethu gan rwydwaith o fysiau lleol a rheolaidd sy'n teithio rhwng Bangor, Aberystwyth, Tywyn a'r Drenewydd.*

***Mewn Car:*** *Saif MOMA a'r Tabernacl ar yr A487, Heol Penrallt, sy'n rhedeg drwy ganol Machynlleth. Parcio ar gael ym maes parcio Heol Maengwyn.*

***Bar y Tabernacl***
*Bydd Bar y Tabernacl yn agored gyda'r nos ar gyfer diodydd cyn y cyngherddau ac yn yr egwyl. Er cyfleuster ac i osgoi ciwiau hirion, gellir archebu diodydd i'r egwyl cyn i'r perfformiad ddechrau.*



# Benefactor's Concert



Wednesday 24 Aug
Dydd Mercher 24 Awst
4.00pm
Aberdyfi

## The Wihan Quartet

**Schubert** Quartet in D minor
'Death and the Maiden'

The 2022 Festival Benefactor's concert presents the Wihan Quartet performing a pillar of the chamber music repertoire, Schubert's Death and the Maiden.

The concert will take place by kind agreement of Sir Simon and Hannah Jenkins.

*Mae Cyngerdd Cymwynaswyr Gŵyl 2022 yn cyflwyno Pedwarawd Wihan yn perfformio un o orchestion repertoire cerddoriaeth siambr, Angau a'r Forwyn gan Schubert.*

*Cynhelir y cyngerdd drwy gytundeb caredig Syr Simon a Hannah Jenkins.*

There is still time to support the 2022 Festival - a form is available on the website.

### Become a 2023 Benefactor

In common with most music festivals, the revenue from festival ticket sales does not fully cover the cost of the performances. Our Festival Benefactors are our highly valued supporters whose generosity directly supports our ability to continue presenting ambitious festival programmes each year.

You can join our community of dedicated festival Benefactors for a payment of £250. As a Benefactor you will be invited to our exclusive Benefactor concerts and your name will be shown in the 2023 Festival Brochure unless you wish to remain anonymous.

To find out more about becoming a benefactor you can call us on **01654 703355** or email us: **info@moma.machynlleth.org.uk**

*Mae amser o hyd i gefnogi Gwyl 2022. Ceir ffurflen ar y wefan.*

### *Dewch yn un o Gymwynaswyr 2023*

*Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o wyliau cerdd, nid yw'r refeniw o werthu tocynnau'r ŵyl yn talu'n gyfan gwbl am gost y perfformiadau. Cymwynaswyr ein gŵyl yw ein cefnogwyr hynod werthfawr y mae eu haelioni yn anhepgor i'n gallu i barhau i gyflwyno rhaglenni uchelgeisiol i'r Ŵyl bob blwyddyn.*

*Gallwch ymuno â'n cymuned o Gymwynaswyr ymroddgar drwy dalu £250. Fel Cymwynaswr fe'ch gwahoddir i'n cyngherddau arbennig i Gymwynaswyr a dangosir eich enw yn Llyfryn Gŵyl 2023 oni bai'ch bod am aros yn ddienw.*

*I gael gwybod mwy am ddod yn gymwynaswr, gallwch ein ffonio ni ar 01654 703355 neu e-bostio ar:* ***info@moma.machynlleth.org.uk***

# Benefactors

We are immensely grateful to the following Benefactors who have supported the 2022 Festival:

*Rydym yn hynod ddiolchgar i'r cymwynaswyr canlynol sydd wedi cefnogi Gwyl 2022:*

Jane & David Anderson
BH2
Julius & Belinda Drake
Andrew & Jane Duff
Chris & Wendy Fuller
Mr & Mrs Philip Jones
Richard Lloyd-Morgan
Richard Mayou
Alex & Sian Reid
Stephen & Lucy Richards
Ben Ridler
TOWIF
Camilla & Anthony Whitworth-Jones
Anonymous Benefactors

# Sponsors

We are very grateful to the following:

David H. O. Owen
Evans Roberts Solicitors
Friends of the Tabernacle
Garthgwynion Charities
J.B. Roberts & Son Ltd, Corris
Lambert Family Foundation
Major & Evans, Chartered Certified Accountants
Mid Wales Storage Centre
Pen'rallt Gallery Bookshop & Siop Lyfrau'r Senedd-dy
Rees Astley Insurance Brokers Ltd
The Wynnstay
Ysgubor Newydd, Royal House

# Supporters

*Rydym yn ddiolchgar iawn i'r canlynol:*

Coch-y-Bonddu Books
Dyfi Distillery, Home of Pollination Gin
Dyfi Wholefoods
Literary Cat Books
London House Furnishers
Machynlleth Bowling Club
Maenllwyd Guest House
Mid-Wales Sign & Print Limited
Miscellannea
Organic Textile Company
Salop Leisure
Solus Procurement Ltd
Squeaky Clean
The Clock Shop
Tillyanne's Florist
Wheeler Fabrics

# Exhibitions

16 July to 17 September
16 Gorffennaf i 17 Medi

## Terence Lambert



### Nature is in the Detail

The renowned wildlife painter, Terence Lambert, presents a collection of work that includes some of his larger pencil drawings, ink on scraper board and mixed media paintings. Terence strives to capture not just the details but the personality of his subjects in his works.

### Natur yn y Manylion

*Mae'r peintiwr bywyd gwyllt enwog, Terence Lambert, yn cyflwyno casgliad o waith sy'n cynnwys rhai o'i ddarluniau pensil mawr, inc ar fwrdd sgrafell a phaentiadau cyfrwng cymysg. Mae Terence yn ymdrechu i ddal nid yn unig y manylion ond personoliaeth ei destunau yn ei waith.*

25 June to 7 September
25 Mehefin i 7 Medi

## Robert Bryce Muir



### Conversation with the Silent

'Conversation with the Silent' was first exhibited at the Dissenters Chapel in Kensal Green, London, 2009 and has been shown at various locations since then. The head studies were created to give a sculptural identity to specific articles in the Universal Declaration of Human Rights which directly protect the ability of an individual to think and express themselves freely.

### Sgwrs â'r Distaw

*Arddangoswyd Sgwrs â'r Distaw am y tro cyntaf yng Nghapel yr Ymneilltuwyr yn Kensal Green, Llundain, 2009 ac mae wedi'i ddangos mewn gwahanol leoliadau ers hynny. Crëwyd y prif astudiaethau i roi hunaniaeth gerfluniol i erthyglau penodol yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol sy'n amddiffyn yn uniongyrchol allu unigolyn i feddwl a mynegi ei hun yn rhydd.*



## Pembrokeshire Artists

25 June to 7 September
25 Mehefin i 7 Medi

"Acknowledging the Lambert family's wish to create a Museum of Modern Art in Machynlleth, it's a great privilege curating this exhibition." – *Myles Pepper*

Pembrokeshire, honed by the elements, and boasting Britain's only coastal National Park, clearly impacts on the artist's eye. We all see things differently, what do you think? Enjoy!

*Mae Sir Benfro, wedi'i hogi gan yr elfennau, a'r unig Barc Cenedlaethol arfordirol ym Mhrydain, yn amlwg yn effeithio ar lygad yr artist. Rydyn ni i gyd yn gweld pethau'n wahanol, beth ydych chi'n ei feddwl? Mwynhewch!*

25 June to 7 September
25 Mehefin i 7 Medi

## Home Cartref



### Tabernacle Art Competition 2022

The annual open competition attracts entries from around the world. The exhibition is selected by expert judges who also award prizes. Awards from the public are presented at the end of the show, so come in and vote!

### Cystadleuaeth Gelf y Tabernacl 2022

*Mae'r gystadleuaeth agored flynyddol yn denu ymgeiswyr o bob cwr o'r byd. Detholir ye arddangosfa gan feirniaid arbenigol sydd hefyd yn dyfarnu'r gwobrau. Cyflwynir gwobrau gan y cyhoedd ar diwedd y sioe, felly dewch i bleidleisio!*

25 June to 7 September
25 Mehefin i 7 Medi

## Tabernacle Collection



Starting with a few important paintings in 1986 the Trust has built up a permanent collection which now contains over 400 works, covering a wide range of subjects and themes. The Trust are extremely grateful to everyone who has contributed, however great or small.

*Gan ddechrau gyda llond dwrn o baentiadau pwysig ym 1986, mae'r Ymddiriedolaeth wedi hel casgliad parhaol sydd nawr yn cynnwys dros 400 o weithiau, yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau a themâu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu, waeth pa mor fawr neu fach.*

# Tocynnau
# Tickets

MOMA MACHYNLLETH

## Box Office / Swyddfa Tocynnau

**machynllethfestival.co.uk**
**01654 703355**

**Event tickets available now from our Box Office or in store at MOMA Machynlleth. See inside for event details and prices. Full event listings on pg 3.**

Concessions available for members of the Friends of the Tabernacle, Students and Children.

To reserve a priority seat and gain access to all events across the full festival week consider a **Season ticket**, available now for £220 or £180 for Friends of the Tabernacle.

All other tickets are not reserved.

***Mae tocynnau i ddigwyddiadau bellach ar gael o'n Swyddfa Docynnau neu o MOMA Machynlleth. Gweler y tu mewn am fanylion digwyddiadau a phrisiau. Ceir y rhestrau digwyddiadau cyflawn ar dudalen 3.***

*Mae consesiynau ar gael i aelodau Cyfeillion y Tabernacl, Myfyrwyr a Phlant.*

*I gadw sedd flaenoriaeth a chael mynediad i'r holl ddigwyddiadau ar draws wythnos yr Ŵyl, beth am brynu **Tocyn Tymor**, ar gael rŵan am £220 neu £180 i Gyfeillion y Tabernacl.*

*Nid oes seddau cadw ynghlwm wrth unrhyw fath arall o docyn.*

**Book online here** / **Archebu ar-lein yma**



MOMA Machynlleth
Y Tabernacl, Heol Penrallt
Machynlleth, Powys, SY20 8AJ

**info@moma.machynlleth.org.uk**
**01654 703355**